

Y Cyngorydd J Williams – Julie.Williams2@rctcbc.gov.uk
Y Cyngorydd A Cox – Alun.G.Cox@rctcbc.gov.uk

Dyddiad/Date:
14 Ebrill 2022

Annwyl Gynghorwyr,

EIDDO GWAG

Cyfeiriad at ran 2 o'r ddeiseb a gafodd ei chyflwyno i'r Cyngor.

Byddwch chi eisoes yn gwybod bod y Cabinet wedi cymeradwyo Strategaeth Adfywio Canol Tref Porth yn 2019. Yn rhan o'r strategaeth yma, mae'r Cynllun Gweithredu'n pennu amcan i ailddatblygu adeiladau yn y dref sydd ddim yn cael eu defnyddio ddigon, sy'n wag neu sydd wedi dadfeilio i greu tai, swyddfeydd a safleoedd manwerthu modern. Er bod hyn yn amcan tymor canolig, mae'r Cyngor eisoes wedi dechrau mynd i'r afael â'r mater drwy ystod o ymyraethau.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i fanteisio ar grantiau Creu Lleoedd, cynllun ariannu sy'n rhan o'i rhaglen Trawsnewid Trefi. Mae hyn wedi arwain at drawsnewid adeilad gwag, adfeiliedig 38 Stryd Hannah, sydd bellach yn cynnig swyddfeydd modern o ansawdd uchel. Y bwriad yw cynnig desgiau a chyfleusterau hyblyg i fusnesau bach.

Serch hynny, mae'r Cyngor yn parhau i drafod cyfleoedd i fanteisio ar gyllid o'r fath gyda pherchnogion eiddo preifat y dref. Mae Grant Cynnal Canol Trefi hefyd ar waith i annog busnesau i sicrhau bod gyda nhw bresenoldeb deniadol a thaclus yn y dref. Mae'r grant yma'n parhau i fod ar gael i berchnogion busnes.

Yn ogystal â'r hyn sydd wedi'i nodi mewn perthynas â'r eiddo uchod, mae modd i mi gadarnhau bod Hysbysiad Adran 215 (Cynnal a Chadw Tir) wedi'i gyflwyno i berchennog hen Neuadd Bingo Top Ten Bingo. Mae'r hysbysiad yma'n gofyn iddo gyflawni sawl gwelliant i'r adeilad.

Trosodd...

Ffyniant a Datblygiad Prosperity and Development

Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd CF37 1DU
Sardis House, Sardis Road, Pontypridd CF37 1DU

Simon Gale

Cyfarwyddwr Ffyniant a Datblygiad | Director of Prosperity and Development

E-bost: gwasanaethaucynllunio@rctcbc.gov.uk | adfywio@rctcbc.gov.uk
Email: planningservices@rctcbc.gov.uk | regeneration@rctcbc.gov.uk

E-bost: strategaethdai@rctcbc.gov.uk
Email: housingstrategy@rctcbc.gov.uk

Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection



Rhaid cydymffurfio â'r hysbysiad erbyn 15 Mehefin. Bydd modd bwrw ymlaen â'r broses o geisio erlyniad os nad yw'r gwaith yn cael ei gynnal erbyn y dyddiad cydymffurfio.

Ynghyd â phwerau gorfodi'r Cyngor, a gan ddibynnu ar natur y cynigion, mae'r Cyngor yn hapus i drafod cyfleoedd i fanteisio ar grant Creu Lleoedd â pherchnogion eiddo preifat a sicrhau bod adeiladau'n cael eu defnyddio unwaith eto.

Hyderaf fod yr uchod o gymorth i chi a gofynnaf i chi rannu'r ymateb yma gyda'ch cyd-ddeisebwyr, a chithau'n brif ddeisebydd.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'D. James'.

Derek James

Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu